# Bwletin Llên Natur 25

Golwg newydd ar y byd o'n cwmpas

www.llennatur.com

Mawrth 2010



## Gwer(h)in eiriau

**MWLL** tywydd tamp, tawel a niwlog. Arfon

**MWRLLWCH** tywydd tamp, tawel a niwlog. Eifionydd? Gerallt Pennant, Galwad Cynnar

**SMWC** "Diwrnod niwlog ond wedi cynhesu'n arw. Y lleithder yn llawer mwy ar yr ucheldir gyda'r niwl yn troi'n smwc o ddifrif yng Nghoed y Rhygen"

Dyddiadur Wil Jones, Croesor a Dyffryn Ardudwy, Croesor

**SMWCLAW** glaw mân; Gwynedd, clywyd ar lafar

**SMWCAN**: "Y mae yn rhyw SMWCAN bwrw. Y mae yn oer iawn heb fenyg rwan"

Dyddiadur Owen T. Griffiths, Rhos y Ffordd, Llangristiolus

**PIGO BWRW** Y Gogledd?

**BUDR**: "Budr iawn" Dyddiadur O.T. Griffiths, Llangristiolus

Dewch a'ch termau tywydd chi i Lên Natur, neu ebostiwch trwy'r wefan

## Cennin a Chennin Pedr

Dim ond yn ddiweddar y daeth y Cennin Pedr yn rhyw fath o arwyddlun cenedlaethol inni. Y Genhinen (*Leek*) ydi'r un go iawn? Mae hanes y Genhinen fel arwyddlun i'r Cymry yn mynd yn ôl i droad y 5g., pan fu i Dewi Sant gynghori'r Cymry cyn brwydr fawr oedd ar fin digwydd rhyngddynt â'r Sacsoniaid paganaidd y dylsai'r milwyr Cymreig wisgo cenhinen yn eu helmau er mwyn medru nabod ei gilydd yn haws – a'r Cymry enillodd hefyd! Roedd y Cymry'n ei gwisgo hefyd ym mrwydrau Crecy ag Agincourt yn Ffrainc yn y Canol Oesoedd.

Ceir llawer o hen rysétiau, fel rhai Meddygon Myddfai o'r 12g yn son bod y Genhinen yn dda nid yn unig i atal gwaedu ac asio esgyrn ond fe fyddai rhwbio sug cennin dros y corff yn arbed milwyr mewn brwydr. Dim rhyfedd i'r Genhinen gael ei mabwysiadu fel bathodyn cap gan y Gatrawd Gymreig! Rhan o'r 'seremoni dderbyn', pan fyddai recriwts ifanc yn cael eu derbyn i'r Gatrawd, fyddai iddynt fwyta Cenhinnen amrwd ar Ddydd Gŵyl Dewi (cyn i'r Catrodau Cymreig gael eu huno yn 2006. Sonia Shakespeare yn ei ddrama "Henry V" am y Cymru yn gwisgo cenhinnen cyn brwydr Poitiers: "*If your majesty is remembered of it, the Welshmen did good service…wearing leeks in their Monmouth caps, which your majesty know, to this hour is an honourable badge of the service, and I do believe your majesty takes no scorn to wear the leek upon St. Tavy's Day*" meddai Fluellen. A phan aeth Pistol ati i wneud hwyl am ben Fluellen am wisgo cenhinnen yn ei het, fe heriodd Fluellen ef i fwyta'r planhigyn. Pan wrthododd Pistol, gan ddweud: "*Not for Cadwallader and all his goats*." fe wylltiodd y Cymro ac ar ôl rhoi cweir i Pistol fe'i gorfododd i fwyta'r Genhinnen yn ei chrynswth, nes oedd dagrau yn rhedeg lawr ei ruddiau!

Ond mae'n debyg mai'r prif reswm pam fod y genhinen mor bwysig inni fel cenedl ydy bod yr hen Gymry yn giamstars ar ei thyfu hi – a bod Cawl Cennin wedi bod yn ganolog i'n bwydlen ni ar hyd y canrifoedd. Ac yn enwedig, ar un amser, dros gyfnod y Grawys, sef yr ympryd Eglwysig 40 diwrnod rhwng Dy' Mawrth Crempog a'r Pasg. Mae cystadlaethau tyfu'r Genhinen fwyaf yn boblogaidd mewn sioeau garddwriaethol. Ceir dau brif ddosbarth – y Cennin Hir (hir a main) a'r Cennin Pot (byr a thew) ac weithiau ddosbarthiadau rhyngddynt.

Aeth pobl 'barchus' diwedd y 19g i ystyried y Genhinen braidd yn 'gomon', ac fe aeth llawer, yn enwedig y merched, i wisgo Cenhinen Bedr ar Ddygwyl Dewi yn hytrach na'r Genhinnen draddodiadol. Fe wnaeth Lloyd George ei ran hefyd, oherwydd dyna oedd o yn ei wisgo ar Fawrth 1af, a fo hefyd barodd i'r blodyn gael ei ddefnyddio yn hytrach na'r Genhinnen adeg coroni ryw ymhonwr o Almaenwr meddw yn dywysog Cymru yn 1911. Ymddangosodd yn gyffredin ar ddogfennau swyddogol oedd yn ymwneud â Chymru o hynny ymlaen.




Addasiad o ysgrif a ddarlledwyd ar 'Galwad Cynnar', Radio Cymru, Mawrth 4ydd, 2006 gan Twm Elias

**Ydych chi'n cadw COFNODION TYWYDD rhifol rheolaidd ac yn fodlon eu rhannu gyda Llên Natur? Hoffech chi eu gweld ar ffurf graff ar y wefan? Rhowch floedd !**

Gŵyl Ddewi 1 Mawrth

## Oes gan genllysg dymor?




*March is my peak month for hail, followed closely by February* [ond Rhagfyr aeth a hi y llynedd - gweler y graff). *Since I've lived in Waunfawr I've never recorded hail in July or August!*

*Generally small hail is a winter phenomenon as the hail is formed in shallower clouds and results from a cold air mass moving in from the N. Atlantic or Arctic. Large hail forms in the towering* <u>*Cumulonimbus*</u> *clouds that need vigorous convection to push them high up into the troposphere where the cold upper air freezes the supercooled water droplets, which then bounce up and down in the huge vertical air currents within the cloud till they become too heavy and fall to earth. Such convective currents occur more frequently in summer (although a strong cold front in winter, and especially late autumn, can create strong convection). Sometimes the strong May sunshine can create powerful convective currents, and as the air in the upper troposphere is still very cold from the winter, the vertical drop off in temperature is rapid and creates conditions for severe hail (and thunder). There seems to have been a notable drop in severe hail events in recent years, meteorologists are unsure why, it could be another aspect of climate change. It could be that much colder upper air resided over the UK in past centuries. These days heavy rain events seem far more likely, indeed it is one of the more notable features of climate change in the UK since the mid 1990's.*

Huw Holland Jones


**Cenllysg mân a ddisgynnodd yn ystod y tywydd oer ddiwedd 2009**

## Mwy am Fyrddin, ei fleiddiaid a'i farf

**(dilyniant o Rifyn 24, tud. 3 am bibonwy )**

Yn yr hen gerddi defnyddiwyd yn aml yr un gair am gi a blaidd - onid oedd yr hen bobl yn gwybod y gwahaniaeth?! Meddai Rhisiart Hincs: "Byddai'n rhesymol tybio y gellid arfer 'ci' am flaidd, ond nid 'blaidd' am gi, fel heddiw. Mae ci/cyn-/-gwn yn elfen mewn enwau personol ac yn golygu 'ci' h.y. ymladdwr, un ffyrnig mewn brwydr, felly byddai unrhyw gi ffyrnig yn 'gi'." A beth am y gwahaniaeth rhwng blew a gwallt? *Blev* yw gair y Llydäwyr heddiw am wallt onide? Meddai Rhisiart eto: "Heb gribo drwy wallt yr hen Lydawiaid ond mae ystyron eang gan lawer o eiriau a'r ystyron wedi dod yn fwy penodol gyda threigl amser - weithiau i'r gwrthwyneb. Yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru, gwallt o fôn Celtaidd a olygai 'gwallt, blew, gwlân, hefyd gwellt, tywys, ỵd, coed' - popeth bron!"

## Llun y Mis......................................Pibydd Du



Tynnais y llun ger Capel Sant Trillo, Llandrillo-yn-Rhos, ar ddydd Sadwrn, Ionawr 16, 2010. Eifion Griffiths

**Pibyddion duon a chwtiaid y traeth yn cyd-fwyta**

*On 18th February 1968, near Cemlyn, Anglesey, I saw three small parties of six to eight Turnstones* <u>*Arenaria interpres*</u>*, each accompanied by a single Purple Sandpiper* <u>*Calidris maritime*</u>*. They were actively searching for food on the small gravel and shingle beaches that lie on the upper stretches of this predominantly rocky shore, and the Purple Sandpipers seemed to be picking food almost entirely from holes and overturned pebbles which had been left a few seconds earlier by the Turnstones. Only when a Purple Sandpiper tried to take food from a hole which a Turnstone was still working was there any sign of animosity between the two species. The shingle beaches were subsequently found to hold dense populations of* <u>*Oligochaete*</u> *worms of the family* <u>*Enchytraeidae*</u>*. These worms occur in great abundance where there are rotting masses of seaweed.*

E. I. S. Rees Llanfairpwll, Anglesey (yng nghylchgrawn British Birds)

## Y "Willow Saffron"

Dilyniant o Fwletin 23 (Ionawr 2010) am blanhigyn yn tyfu yn Llanberis yn 1912 a alwodd Annie Robinson yn "willow saffron": *I am unaware of any plant called willow saffron and can think of nothing likely which grows abundantly in the Llanberis region. The most obvious candidate would be Meadow Saffron (*<u>*Colchicum autumnale*</u>*) but that is a rare plant in North Wales and not known from Llanberis. Thinking a little more tangentially the earlier botanists called the lichen we now know as* <u>*Caloplaca flavorulescens*</u> *(syn.* <u>*Lecidea aurentiaca*</u>*) the saffron coloured willow lichen. This is not a common species and again I'm unaware of it's being known in the Llanberis area.*

Ateb Fred Rumsey o'r Natural History Museum i ymholiad Dafydd Guto amdano


Luzula campestris, Saesneg field wood-rush

## Arwydd o'r gwanwyn

Meddai'r ffermwyr:

Yr eidion du gaiff fyw
Heddiw mi welais filfyw

Beth yw "milfyw"? Roedd Wil Jones, Croesor, yn hoff iawn o son am y traddodiad yn Sir Feirionnydd o droi'r gwartheg i'r ffridd pan oedd y filfyw yn ei flodau, Noder: MIL = anifail (cymh. MILFEDDYG)

## Hen grëyrfa ym Môn

23 Mawrth 1925: *To Holyhead. Visited Heronry at Treiorwerth, Bodedern, about a dozen nests, birds came off some nests, apparently eggs but failed to climb up. Other nests looked half finished.*

Dyddiadur Y Parch. John Thomas (mae'n debyg), Tywyn, Abergele 1922-1942

Ydi crëyrfa Treiorwerth yn fyw o hyd? Gol.

**...stori creyr arall**




Ydi gweld y creadur hwn yn sefyll yma'n olygfa gyffredin yn Aberdaron? Amser cinio dydd Sul Ionawr 4, 2009 oedd hyn.

Llun a stori gan Ifor Williams

**...ac un arall - y creyr bach tro 'ma**

Dan ofal y Gymdeithas Adarydda Brydeinig (y BTO) cafodd adar rhai o'n haberoedd eu cyfri dros fisoedd y gaeaf ers y 60au. Un o'r aberoedd hyn yw aber y Ddwyryd, neu'r Traeth Bach. Dros y cyfnod gwelwyd effeithiau tebygol newid hinsawdd ac un o ganlyniadau'r cyfri yw'r cynnydd graddol, ym mhoblogaeth y creyr bach a oedd yn brin iawn cyn ei ymddangosiad cyntaf yma yn 1993. Diolch i Alun Williams am y llun a chyda chydnabyddiaeth i bawb a fu'n cyfri ac yn trefnu'r cyfrif dros yr aber hwn ers 1963, ac yn benodol dros y blynyddoedd dan sylw yma, Rhys Jones. Cydnadyddir hefyd y Gymdeithas Adarydda Brydeinig am reoli a darparu'r data hyn.




## Gwylannod Penddu eto

Yn Rhifyn 24 gofynnwyd y cwestiwn "pa ganran o wylanod penddu sydd â mwgwd du ym mis Chwefror heddiw?" Wel, dyma ddod ar draws y nodyn hwn yn un o fy hen ddyddiaduron:

Talybont, Dyffryn Ardudwy 17 Mawrth 1979; *2200 black-headed gulls apparently feeding on a large wreck of razor shells which litter the beach (common gulls in majority with black headed a close second). Herring Gulls also numerous (5%). Birds in similar concentrations extended north of this. Bh gulls most in summer plumage concentrating at mouth of Ysgethin.* Dyddiadur DB

Erbyn mis Mawrth mae'r ganran "mygydol" yn cynyddu'n gyflym - ond beth am fis Chwefror?

## Symbylu'r Gwartheg

Ym mhlwyf Llanfihangel Brynpabuan, Buellt, Brycheiniog mae yna le o'r enw RHIW IERTHI yn ôl cyfrol "Cymru Evan Jones" (Gwasg Gomer 2009). Yn y gyfrol hon dyfynwyd Ieuan Deulwyn 'Wrth y drain a'r ierthi draw'. Ierthi yw swmbwl neu *goad* (i brocio gwartheg wrth eu hel ymlaen). Dyma ysgrifennodd Robert Bulkely, Dronwy, ar y 6 Tach 1631: 'my man p[ai]d for beesoms a peny, for fysteilian 2d, for BLAEN GWIAIL GALW [enw RB am *goad* mae'n debyg] a peny'. Tybed ai'r llwyni y gweid ierthi ohonynt y tyfai ar y rhiw ym Muellt? A chynnyrch pa goeden oedd "blaen gwiail galw" RB?

## Plannu Camri yn Aberdaron

10 Mawrth 1887 Aredig at datws yn Caetanlon. Planais camomile [camri neu chamomile] yn yr ardd

Dyddiadur William Jones, Aberdaron

Meddai Bethan Wyn Jones: Un rheswm dros dyfu camri yn yr ardd, oedd er mwyn gwneud te emetig hefo fo – hynny ydi, rhywbeth i achosi i rywun gyfogi, ond nid dyna oedd yr unig reswm dros ei ddefnyddio, ac mae'r mwyafrif o gofnodion o'r defnydd sydd wedi'i wneud o hwn yn dangos ei fod wedi'i ddefnyddio i ymlacio. Mae o hefyd wedi'i ddefnyddio ar gyfer cnofeydd yn y stumog, ac er mwyn llacio poenau yn y pen, y dannedd a'r clustiau oedd yn codi o achos tensiwn neu nerfusrwydd. Mae'r camri hefyd wedi'i ddefnyddio er mwyn llacio poenau merched yn ystod y mislif, ac er mwyn cysgu'n esmwythach - go brin y basa fo wedi'i blannu ar gyfer hyn!! [Hen lanc oedd William Jones!] Defnydd arall sydd wedi'i wneud ohono fo ydi ar gyfer anwyd, peswch a dolur gwddw. Fel arfer defnyddio'r blodau i wneud te a'i yfed yn boeth wneid i wella anwyd ag ati, ond roedd rhai hefyd yn anadlu'r stêm oedd yn codi wrth roi dŵr berwedig ar y blodau. Roedd hyn yn digwydd ym Morgannwg ac yn Sir Drefaldwyn. Roedd 'na gred yn Ne Cymru fod cymryd y gwlith oedd wedi'i ysgwyd oddi ar y blodau yn ddigon i wella'r diciâu. Defnyddiwyd y blodau i wneud trwyth i roi ar chwydd neu os ydi'r croen yn llidus. Mae modd gwneud eli hefyd hefo'r blodau er mwyn ei roi ar betha fel pen ddyn er mwyn tynnu'r drwg allan ohono, ac mi fedrwch chi ddefnyddio dŵr oddi ar y blodau er mwyn golchi llygaid dolurus.



Mae 'na rai yn credu y medrwch chi ddefnyddio'r olew o'r blodau i drin y cengroen neu soriasis. Yn ôl pob sôn, mi fedrwch ddefnyddio gwraidd y planhigyn ar gyfer y ddannodd. Yn sicr mae'r blodau wedi'u defnyddio er mwyn golchi'r gwallt os oes gennych chi wallt golau, er mwyn cadw'r lliw golau. Mae'r camri hefyd wedi'i ddefnyddio i gynhyrchu lliwur – un gwyrdd. Mae 'na ddefnydd arall i'r camri hefyd – sef defnydd hud. Mae'r blodyn wedi'i ddefnyddio er mwyn denu arian ac mae'r rhai sy'n gamblo yn credu ei fod yn beth lwcus i olchi eich dwylo mewn trwyth o'r planhigyn er mwyn sicrhau eich bod chi'n ennill.

Chwiliwch am gofnodion eraill am y camri ar y wefan yng nghronfa LLÊN Y PETHAU BYW

## Gwiail (eto o Ddyddiadur W Jones, Aberdaron (trwy garedigrwydd Mrs WE Miners a Miss D.L. Roberts)

27 Tach 1884 Cefais wiail cewyll yn Tyllbach

2 Ion 1880 Sych a llariaidd. Bum yn tori gwiail yn y rhos

10 Tach 1884 Bum yn Tynyffridd yn nol gwiail. Talu 3s-6c

14 Tach 1884 Bum yn rhos yn tori Gwiail. Club yn y Sarn.

## Beth yw saffrwm.....?

...rhywle lle mae athrawon yn mynd i gael 'panad!

*Gŵyl Bened 21 Mawrth*


## Newydd yn yr Oriel



**"The Road to Snowdon"**
Mae Richard Ninnes wedi dod o hyd i lun olew gan ei hen ewythr. Fe'i tynnwyd mae'n debyg o gyfeiriad Llyn Mymbyr neu Fetws y Coed o bosib. Meddai Richard, "*The artist is Bernard Ninnes. He probably painted it in the 1930s. Possibly 1950s.*"



**Dyffryn Llyfnant?**
Diolch i Bethan Wyn Jones am y llun hwn. Meddai: "os gwnei ei chwyddo, mi weli fod y geiriau "In Llyfnant Valley" arno. Mae'n bosibl fod yna ddyddiad ar ei ôl hefyd - 11.5.12, ond fedra i ddim bod yn siwr.



## Heth Fawr 1895

Yn dilyn llun Sion Roberts o ronynau bach o rew ar draeth Morfa Bychan (Rhifyn 24), dyma baentiad sydd wedi dod i'r fei gan A. J. Hewins, Pencarreg, Y Bermo, yn dangos talpiau o rew ar y Fawddach yn ystod "Yr Heth Fawr" gaeaf 1895. Gweler y ffotograff o'r grwp ar Lyn Padarn yn ystod yr un gaeaf gyferbyn. Llun gyda chaniatad Peter Benoit

## Y Byd a'r Betws yn 1784...

Dyma gofnodion hanner cyntaf y flwyddyn honno yn nyddiadur Llên Natur:

7 Chwefror 1784: *Snow very deep indeed and bitter cold weather.*

9 Chwefror 1784: *We got I thank God safe home to Weston about 4. The snow as deep as we went and harder work for 4 horses than going to Norwich*
Dyddiadur James Woodforde, Weston Longville, Norfolk

9 Chwefror 1784"... *Snow covering the earth. Not as hard a season as since that which began in 1739 on Old Christmas Eve and ended the latter end of February following in 1740*. [Weather notes]"

'Englynion a gyfansoddwyd Chwefror yr 20fed yn y Flwyddyn 1784 gan Dafydd ddu o Eryri yn achos rhew ag eira trwm iawn a barhaodd o nôs Nadolig heb feirioli tan yr 20fed dydd o Chwefror. Ar 21 Chwefror y cyfansoddwyd yr englyn i Blant Adda pan ddechreuodd feirioli ond ni feiriolodd yn hollol tan ganol Mis Mai.'

Dy gerydd a gawsom
Bu Eira â'n drwch fel Barn drom
Dyrnod am bechod arnom

Tueddwn holl Blant Adda -yn filiwn
I foli'r Mesïa
Er oered oedd yr Eira
Dydd a roed i doddi'r Ia.

Diolch i Cathryn Charnell White,Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd (Prifysgol Cymru) yn Aberystwyth

Mawrth 1784: Cafwyd gwanwyn hwyr yn ôl y Gwladgarwr 1837.


Tynnais y llun yma o'r llinos werdd yng Ngwarchodfa Natur Conwy Gorffennaf 10, 2009. Eifion Griffiths

Selborne 5 Mai 1784: *Cut the first cucumber, a large one. Golden weather. The polyanths blow finely, especially the young seedlings from Bramshot Place, many of which will be curious. Shot three greenfinches, which pull of the blossoms of the polyanths* Dyddiadur Gilbert White

## Llyn Padarn 1895



Yr un gaeaf a hwnnw yn y paentiad gyferbyn - gaeaf hanesyddol, i'w gymharu yn ei erwinder â gaeafau mawr y ganrif ddiwethaf, 1947 ac 1963. Craffwch ac mi welwch fod y llun wedi cael ei "wella" mewn mannau. Sylwch mor drwchus oedd y rhew i gynnal pwysau cynifer o bobl. Cerdyn Post

## Grifft llyffant

Dim son am rifft llyffant yma yn y Waunfawr wrth fynd i'r wasg (13 Chwefror). A dim syndod chwaith o ystyried y tywydd oer (ar wahan i ambell un yn dymuno "Penbwl hapus yr hen lyffant" ar fy mhen blwydd yn ddiweddar!) Beth amdanoch chi. Dewch a'ch cofnodion.
[**Atal y wasg:** daeth y grifft cyntaf ar y 20ed] DB

Cymdeithas Edward Llwyd: Rhif Elusen Gofrestredig : 1126027 **Ychwanegwch ddeunydd i llennatur@yahoo.co.uk** Golygydd: Duncan Brown, Cysodi: Ifor Williams.